

DOLEN Y TAB 81

12-13 Tachwedd 2021

11 Fore Sul 14 Tachwedd

Yng ngofal y Parchg. Aled Edwards, a Bethan a Huw Herbert, gyda Bethan Roberts ar yr organ. Hefyd bedyddir Miriam, merch Manon a Geraint Huws.

Cofiwch gofrestru erbyn 6 o'r gloch nos Wener, os am fynychu'r cwrdd!

YR OEDFAON NESAF

TACHWEDD

- 21 Yng ngofal Wendy Reynolds, Gwion Evans a John Ll. Thomas.
- 28 Oedfa gyda'r Parchg. Gethin Rhys ac Edwyn Evans, yn cael ei dilyn gan y Cwrdd Blynyddol.

RHAGFYR

- 5 Yng ngofal y Parchg. Eirian Rees, Huw Roberts a Sylvia Davies.
- 12 Gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul gyda pharti iddynt i ddilyn.
- 19 Oedfa gyda'r Twmiaid ac aelodau o'r gynulleidfa – cerddi, ambell gân ac atgofion Nadoligaidd.

Ni chynhelir oedfa fore Sul 26 Rhagfyr.

Hefyd ddydd Sul 14 Tachwedd

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth ar Sul y Cofio yng ngofal y Parchg. Ddr. Elwyn Richards, Bangor

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 – 20.00 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol

Ar Sul y Cofio bydd Ryland yn cwrdd â chaplan a fu'n gefn i forwyr Llynges Prydain ar draws y byd.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Tomos Morse a'r teulu wedi i ni dderbyn y newyddion trist am farwolaeth mam Tomos, Meima Morse, yn gynharach yr wythnos hon.

Enwebiadau i'r Bwrdd

Cofiwch mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn enwebiadau i Fwrdd y Cyfarwyddwyr / Ymddiriedolwyr yw **dydd Llun 15 Tachwedd**. Gellir casglu copïau caled o'r ffurflen enwebu o'r hysbysfwrdd yng nghyntedd y capel. Hefyd fe anfonwyd copi digidol o'r ffurflen i gyfrif e-bost pob aelod. Mae angen o leiaf **TRI** aelod newydd i gymryd lle'r aelodau fydd wedi cwblhau eu tymor o dair blynedd eleni.

Banc Bwyd Salem, Ton-Teg

Daeth cais drwy law Carys i gefnogi ymgyrch Nadolig y Banc Bwyd uchod drwy gasglu pob math o ddanteithion Nadolig yn ystod mis Tachwedd a'u danfon i Salem Ton-teg o 20 Tachwedd ymlaen.

Os byddai'n well gennych chi roi cyfraniadau Nadoligaidd yn y blwch arferol yn y capel, bydd Carys yn trefnu i'w cludo i'r Banc Bwyd. Mae rhestr o'r danteithion i'w gweld mewn cyhoeddiad gan y Banc Bwyd yng nghyntedd y capel. Cysylltwch â carys.davies@gmail.com os am ragor o wybodaeth.

Capel y Tabernacl Cyf.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Bore Sul, 28 Tachwedd 2021



Y Ganolfan,
Capel Tabernacl

10.00-11.30

Dydd Llun

Tachwedd 1af, 15fed, 29ain, Rhagfyr 13eg



Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i plant/wyrion/wyresau




Cyfle i bawb gymdeithasu, chwarae gyda theganau ynghyd a chael ychydig o fwyd sy'n addas i blant.



COFIO'R BECHGYN

Aeth tair blynedd heibio ers i ni gynnal oedfa arbennig iawn yn y Tabernacl ar Sul y Cofio 2018, ar achlysur nodi can mlynedd i'r dyddiad y cyhoeddwyd cadoediad y Rhyfel Byd Cyntaf yn 1918. Yn ystod yr oedfa honno rhoddwyd sylw teilwng gan Geraint Rees i hanes bywydau'r pum bachgen oedd â chysylltiad gyda'r eglwys ac a gollodd eu bywydau yn y brwydro. Dyma'r pump a enwir ar y cofebau a welir hyd heddiw ar fur y capel.

Yn ddiweddar iawn, derbyniodd Geraint gopi o'r daflen isod a luniwyd i nodi'r cyfarfodydd a gynhaliwyd i ddadorchuddio'r cofebau hyn gan Gareth Williams, un o ddisgynyddion John 'Taihirion' Davies, a fu'n weinidog ar yr eglwys hon rhwng 1851 a 1904. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn ar y 29 Gorffennaf 1920 – y cyfarfod dadorchuddio yn y prynhawn, ac yna cyfarfod pregethu yn yr hwyr. Yn ddiddorol iawn, y Parchg. R.G. Berry, gweinidog Bethlehem, Gwaelod y Garth, draddododd y bregeth yng nghyfarfod yr hwyr – gŵr sydd hyd heddiw yn cael ei gofio fel un o arloeswyr y ddrama Gymraeg.



Ni cheir cyfeiriad penodol at y cyfarfodydd hyn yng nghyfrrol David Rowlands ar hanes y Tabernacl a gyhoeddwyd ar achlysur canmlwyddiant yr eglwys yn 1941, ond mae'n enwi'r bechgyn ynghyd â'r cyfeiriad yma at y cofebau: 'Wedi i Ryfel erchyll 1914-18 ddod i ben, gwelwyd fod pump o fechgyn mewn cysylltiad â'r Eglwys wedi syrthio yn y drin ofnadwy, sef – Tom Lewis, Bryn Williams, Charles Rees, Emrys Jones a Nicholas Goodfellow. Ar ddechrau 1920 rhoddwyd dwy Dablen Goffa ym mur y Capel, nid er mwyn gogoneddu Rhyfel, ond am iddynt gredu eu bod wedi rhoi eu bywyd yn aberth dros gyfiawnder, a gwneud terfyn ar bob Rhyfel byth mwy. Gosodwyd "Roll of Honour" i fyny hefyd, iddynt hwy a'r lleill a gymerodd ran yn y gyflafan. Costiodd y cyfan £70.'

Does dim syndod bod tinc braidd yn sardonig i adroddiad David Rowlands o'r achlysur 21 mlynedd yn ddiweddarach – wedi'r cyfan, roedd yn llunio llyfryn y dathlu yr union flwyddyn ag y dinistriwyd canol tref Abertawe gan gyrchoedd awyrlu'r Almaen, a bod erbyn hynny 37,000 yn cael eu cyflogi i gynhyrchu arfau dinistriol mewn ffatri ym Mhen-y-bont ar Ogwr.



CASGLIADAU'R NADOLIG

Daeth hi'n amser meddwl am gasgliadau'r Nadolig unwaith eto, ac ymgyrch y Tabernacl i ledaenu ychydig o ysbryd yr Wyl ymhlith pobl sydd mewn amgylchiadau anodd yn yr ardal.

POBL IFANC

Fe fyddwn ni, yn ôl ein harfer, yn anelu at gyflwyno talebau gwerth £20 i bump ar hugain o bobl ifanc sy'n gadael gofal, drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

ELUSEN POBL

Mae Pobl yn chwilio am help i gynnal dathliadau Nadolig yn eu hosteli, a'n gobaith ni ydy bod yn rhan o'r fenter drwy gyflwyno talebau gwerth £50 i bedair hostel, gan nad oes cyllid ar gael i'r elusen fedru gwneud hyn.



Bydd modd cyfrannu drwy sic neu drosglwyddiad banc drwy Arwyn, ein trysorydd, neu roddion ariannol drwy law John Llew neu Ann Dwynwen.

CYMORTH I FERCHED CYMRU

Bydd ein casgliad danteithion Nadolig a nwyddau hylendid yn parhau eleni, yn ystod mis Tachwedd, a byddwn yn didoli a danfon popeth mewn da bryd ar gyfer tymor y Nadolig.



Bydd y capel ar agor rhwng 10 a 12 bob bore Iau drwy fis Tachwedd i dderbyn eich rhoddion.



DIOLCH YN FAWR I CHI
AM EICH CEFNOGAETH BARHAUS
- Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol



Coffi a Sgws
Canolfan y Tabernacl
Bob bore Mawrth
10.30-12.00
Croeso i bawb

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos Iau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk